# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 9fed o Fai 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Cyfarfod Blynyddol:**
**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Mai 2016 gan y Cadeirydd. Croesawodd ein is-Gadeirydd, y Cynghorydd Carys Morgan i'r sedd fel ein Cadeirydd newydd a diolchodd am gymorth y pwyllgor yn ystod ei gyfnod ac hefyd diolchodd ein cyn Gynghorwr John Lumley am ei wasanaeth yn ei gyfnod fel Cynghorwr Sirol.

**Cyfarfod misol:**
**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd),
Wyn Jones, Ruby Williams, Gerallt Davies a Barry Owen.
**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.
**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Garym Roberts,
Jocelyn Andrew, Wyn Evans ac Eiddwen Merritt.
**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu, dangosodd y Cynghorwr Carys Morgan ddiddordeb yn y mater yn ymwneud a'r llythyr oddiwrth Pwyllgor Digwyddiadau Derwen Gam a bydd yn gadael yr ystafell tra bydd y drafodaeth yn cymryd lle.
**Cofnodion:** Diolchodd y Cynghorydd Carys Morgan i'r pwyllgor am y fraint o fod yn Gadeirydd ac hefyd diolchodd i'r cyn Gynghorydd Sirol John Lumley am ei gyngor a'i gymorth yn ystod ei amser tra yn gwasanaethu. Croesawodd ein Cynghorydd Sirol newydd Marc Davies i'n plith a dymunwyd pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd. Darllenwyd cofnodion Mis Ebrill a'u cafwyd yn gywir.
**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Penodi Is-Gadeirydd:**
Penderfynwyd sefyll tan fydd rhagor o aelodau yn bresennol cyn penodi Is-Gadeirydd.
**Un Llais Cymru:**
Mynychodd y Cynghorwyr Wyn Jones a Barry Owen Pwyllgor Ardal Ceredigion ym Mis Ebrill a sonwyd am rai pwyntiau a cafodd eu trafod.
Penderfynwyd i'r Cadeirydd dderbyn yr holl hysbysiadau oddiwrth y Clerc.
**Anfoneb i'w dalu:**
Neuadd Goffa Llwyncelyn - £220.00
**Cais am arian:**
Darllenwyd lythyr oddiwrth pwyllgor Digwyddiadau Derwen Gam yn gofyn am gyfraniad tuag at statws 'Parth Rheoli galwadau Diwahoddiad'. Penderfynwyd dim cyfrannu.
**Unrhyw Fater Arall**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15.

Mae'r cyfarfod nesaf ar y 13eg o Fehefin.